SKAPW92

Rhoi fframweithiau cyfoes ar waith yng nghyd-destun gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon ag ymchwilio i fframweithiau cyfoes sy'n effeithio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yng nghyd-destun gwaith chwarae, dadansoddi polisïau ac arferion cyfredol yn y lleoliad gwaith chwarae lle rydych yn gweithio a cheisio diweddaru a gweithredu polisïau ac arferion eich sefydliad fel eu bod yn gyson â fframweithiau cyfoes.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi fframweithiau cyfoes ac allweddol perthnasol yng nghyd-destun gwaith chwarae
2. adolygu, diweddaru a gweithredu polisïau ac arferion ar sail dadansoddiad

Mae'r safon hon ar gyfer unigolyn sy'n gweithio ym maes gwaith chwarae, ac sy'n rheoli amryw o safleoedd traws-sector; unigolyn sy'n gweithio mewn rôl sy'n cynnwys rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, ac yn gyfrifol am staff niferus a'u lles.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio.* *

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi fframweithiau cyfoes ac allweddol perthnasol yng nghyd-destun gwaith chwarae**

1. ymchwilio i **ffynonellau** gwybodaeth am fframweithiau cyfoes
2. dadansoddi eich canfyddiadau o **fframweithiau cyfoes ac allweddo**l sy'n berthnasol i'ch sefydliad a'r plant a'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw
3. trafod eich dadansoddiad gydag **eraill**
4. cytuno gydag **eraill** pa **fframweithiau cyfoes ac allweddol** sydd fwyaf perthnasol i'ch sefydliad ac anghenion y plant a'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw

**Adolygu, diweddaru a gweithredu polisi ac arferion ar sail dadansoddiad**

1. defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil a'r dadansoddiad i adolygu eich fframwaith presennol
2. cyflwyno gwybodaeth am **fframweithiau cyfoes ac allweddol** i **eraill** er mwyn llywio'r adolygiad o'r polisi ac arferion
3. cytuno gydag **eraill** pa feysydd polisi ac arferion y gellid eu gwella, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. adolygu a diweddaru eich fframwaith presennol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad i fodloni gofynion **fframweithiau cyfoes ac allweddol**

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi fframweithiau cyfoes ac allweddol yng nghyd-destun gwaith chwarae**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. y ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio er mwyn gwneud gwaith ymchwil i **fframweithiau cyfoes ac allweddol** a sut i ddod o hyd iddynt
3. pwysigrwydd deall **fframweithiau cyfoes ac allweddol** a'u heffaith ar y ddarpariaeth chwarae
4. pwysigrwydd polisïau ysgrifenedig sy'n ymdrin â **fframweithiau cyfoes ac allweddol** a sut maen nhw'n cynnal a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc
5. y berthynas rhwng polisïau ac arferion eich sefydliad a'r **fframweithiau cyfoes ac allweddol**
6. sut i fyfyrio ac ymwneud ag **eraill** a pham mae hyn yn bwysig
7. sut i gydbwyso ethos gwaith chwarae â gofynion **fframweithiau cyfoes ac allweddol** a phwysigrwydd hyn
8. pwysigrwydd gwybod am y gwaith ymchwil diweddaraf

**Adolygu, diweddaru a gweithredu polisi ac arferion ar sail dadansoddiad**

1. sut i adolygu, gwerthuso a newid fframwaith presennol eich sefydliad yng ngoleuni eich ymchwil
2. sut i nodi pa feysydd polisi ac arferion sy'n cael eu heffeithio gan **fframweithiau cyfoes ac allweddol**
3. sut i gyflwyno gwybodaeth ac ymwneud ag **eraill** er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion eich sefydliad
4. ffynonellau gwybodaeth a chymorth ar sut i ddatblygu polisïau ac arferion
5. sut i ddatblygu polisïau ac arferion yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. pwysigrwydd adolygu a diweddaru eich fframwaith presennol yn unol â pholisïau ac arferion

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Ffynonellau* *

1. cyfoes
2. perthnasol
3. dilys
4. dibynadwy

**Fframweithiau cyfoes ac allweddol** (o leiaf 6 o'r 10)

1. gofynion rheoleiddio a deddfwriaeth
2. polisi cymdeithasol ac iechyd
3. economaidd a chyllid
4. gwleidyddol
5. moesegol
6. cymdeithasol
7. technolegol
8. cofrestru proffesiynol
9. datblygiad proffesiynol
10. system cyfiawnder

**Eraill** (o leiaf 5 o'r 9)

1. staff
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. rheolwyr
4. sefydliadau allanol
5. arolygwyr
6. plant a phobl ifanc
7. athrawon
8. ymwelwyr iechyd
9. gweithwyr cymdeithasol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Fframweithiau cyfoes ac allweddol**

1. gofynion rheoleiddio a deddfwriaeth
2. polisi cymdeithasol ac iechyd
3. economaidd a chyllid
4. gwleidyddol
5. moesegol
6. cymdeithasol
7. technolegol
8. cofrestru proffesiynol
9. datblygiad proffesiynol
10. system cyfiawnder

**Eraill**

1. staff
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. rheolwyr
4. sefydliadau allanol
5. arolygwyr
6. plant a phobl ifanc
7. athrawon
8. ymwelwyr iechyd
9. gweithwyr cymdeithasol

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7.
Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw’n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8.
Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae.  Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu’r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Ethos gwaith chwarae**
Y credoau neu’r delfrydau arweiniol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn rhoi cymorth a rhyddid iddynt gael profiadau cadarnhaol drwy chwarae; dylid cyfeirio at yr Egwyddorion Gwaith chwarae

**Darpariaeth chwarae**
Lleoedd sy’n cael eu ffurfio gan oedolion lle gall plant a phobl ifanc chwarae

**Man chwarae **
Lle sy’n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â’r byd seibr.

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

**Staff**
Y bobl rydych chi’n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi’n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW92

Rhoi fframweithiau cyfoes ar waith yng nghyd-destun gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAPW38 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithredu; fframweithiau cyfoes; gwaith chwarae; lleoliad chwarae; darpariaeth chwarae |